PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd 5 Gorffennaf, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorydd Mrs. S.M. Hanks (Cadeirydd); Cynghorydd Ms. R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Ms. J. Aviet, G.D.D. Carroll, Mrs. C.A. Cave, M.J.G. Morgan, A.C. Parker, R.A. Penrose, Mrs. S.M. Perkes, A.R. Robertson, L.O. Rowlands and M.R. Wilson.

Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Y Cynghorwyr Mrs. S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), Mrs. H. Weddell (Cyngor Tref Y Bont Faen); G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), S. Griffiths (Cyngor Cymuned Dinas Powys), Mrs. H. Baker (Cyngor Cymuned Ewenni), Dr. A. Rees (Cyngor Cymuned Llancarfan) ; R. Thomas (Cyngor Cymuned Llandŵ), Mrs. S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair), Mrs. P. Wilson (Dirprwy) (Cyngor Cymuned Llan-gan), G. Smith (Cyngor Cymuned Llan-faes), Mrs. G. Marks (Llanfihangel-y-pwll gyda Chyngor Cymunedol Leckwith), Mrs. G. Kellen (Cyngor Cymuned Pendeulwyn), Ms A. Phillips (Cyngor Cymunedol Llanbedr-y-fro), Mrs. A. Barnaby (Cyngor Cymunedol Sain Tathan), Mrs. M. Jeffreys (Cyngor Cymunedol Sain Dunwyd), W. Howells (Cyngor Cymunedol Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái), I. Perry (Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn), C. Tatt (Cyngor Cymuned Sili a Larnog) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr Mrs. J.E. Charles, G. John, Mrs. J.M. Norman and E. Williams.

164 CYHOEDDIAD –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol: "Hoffwn atgoffa pawb a fydd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd a chaiff y recordiad hwn ei archifo i'w wylio yn y dyfodol".

Rhoddodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad byr hefyd ar Geisiadau i'w Hystyried ar gyfer y Pwyllgor a gofynnodd yn garedig i unrhyw ffurflenni sy'n weddill gael eu dychwelyd i'r Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl os oes angen o hyd.

165 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr D. Reed (Cyngor Cymuned Llan-gan) and Dr. S. Howells (Cyngor Cymuned Pen-llin).

166 COFNODION –

CYTUNWYD – BOD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill, 2021 fel cofnod cywir.

167 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd A.R. Robertson fuddiant gan ei fod hefyd yn Aelod o Gyngor Cymuned Dinas Powys ond bod ganddo oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar faterion Cynghorau Tref a Chymuned.

Datganodd y Cynghorydd Mrs. S.M. Perkes fuddiant gan ei fod hefyd yn Aelod o Cyngor Tref Y Barri ond bod ganddo oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar faterion Cynghorau Tref a Chymuned.

168 MATERION HEDDLU –

Rhoddodd y Prif Arolygydd Rees ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar y materion plismona canlynol ar gyfer ardal Bro Morgannwg:

- Cynnydd ar faterion a godwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill,
- Ystadegau allweddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2021
- Bwrgleriaeth,
- Diogelwch ar y Ffyrdd; ac
- Ymgyrch Elstree (Galw Arfordirol).

Yn dilyn diweddariad y Prif Arolygydd a'r cwestiynau dilynol a ofynnwyd gan y Pwyllgor, dywedodd y Prif Arolygydd y canlynol:

- Ymgysylltid â Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol perthnasol yr Heddlu i sicrhau bod swyddog heddlu yn bresennol mewn cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned (CTC) yn y dyfodol yn amodol ar amserlenni dyletswyddau Swyddogion a/neu ar yr amod bod adroddiad plismona ar gyfer yr ardal yn cael ei roi i'r CTC;
- Gofynnid i Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) ar gyfer ardal Stanwell Road ym Mhenarth ddychwelyd negeseuon a adawyd gan y Cynghorydd Mark Wilson;
- Byddai'r pryderon ynghylch damweiniau traffig fu bron â digwydd o ganlyniad i barcio anghyfreithlon ar ddwy ochr Heol Larnog ym Mhenarth (ger y caeau rygbi) yn enwedig ar foreau Sul yn cael eu trosglwyddo i'r tîm plismona perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd;
- Oherwydd cyfyngiadau cymdeithasol o ganlyniad i'r pandemig cenedlaethol, roedd cyfarfodydd P.A.C.T a oedd wedi ailddechrau fesul cam yn cael eu cynnal o bell. Cydnabuwyd y byddai'n ddefnyddiol i holl aelodau'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol dderbyn gwahoddiadau i gyfarfodydd P.A.C.T ac y ceisid cadarnhad o sut y byddai cyfarfodydd o'r fath yn cael eu hysbysebu'n gyhoeddus;

- Ar ôl derbyn nifer sylweddol o adroddiadau am blant ar goll o draeth Ynys y Barri yn ystod y tywydd cynnes, roedd bandiau arddwrn diogelwch plant ar gael yn rhad ac am ddim gan y rhan fwyaf o fasnachwyr Ynys y Barri a stondinau Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI). Cynllun RNLI oedd hwn a gymeradwywyd ac a hyrwyddwyd gan Wasanaeth yr Heddlu;
- Byddai pryderon ynghylch cywirdeb gwybodaeth gyswllt ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar gael ar brif wefan Heddlu De Cymru yn cael eu trosglwyddo i Dîm Cyfathrebu Corfforaethol yr Heddlu i sicrhau bod adolygiad o'r wybodaeth yn cael ei gynnal.

CYTUNWYD –

(1) Y DYLID diolch i'r Prif Arolygydd Rees am ei hamser a'i diweddariad ar lafar.

(2) Y DYLAI'R Swyddog Gwasanaethau Democrataidd roi rhestr o holl fanylion cyswllt y Clercod Tref a Chymuned i'r Prif Arolygydd fel y gellir trefnu cynnydd o ran adroddiadau'r heddlu a phresenoldeb swyddogion ar gyfer cyfarfodydd unigol y Cyngor.

169 MATERION GWASANAETH TÂN AC ACHUB –

Rhoddodd Mr. Hadfield ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar y materion canlynol ar gyfer ardal Bro Morgannwg:

- Dadansoddiad o ystadegau galwadau Tân Bro Morgannwg ar gyfer 2020/21 dan y categorïau canlynol:
  - Tanau Damweiniol mewn Anheddau,
  - Tanau Glaswellt,
  - Tanau Sbwriel,
  - Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd,
  - Llifogydd,
  - Achub o'r dŵr; a
  - Larymau Ffug.
- Rhaglen Cadetiaid Tân
- Ymweliadau Ysgol Cyfnod Allweddol 1 a 2
- Tanau sbwriel bwriadol
- Ymarfer Rheilffordd Graddfa Fawr ddydd Sadwrn, 26 Mehefin.

CYTUNWYD – Y DYLID diolch i Mr. Hadfield am ei amser a'i ddiweddariad ar lafar.

170 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG 2020-21 (RG) –

Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi trosolwg o'r drydedd flwyddyn o gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Lles a'r camau gweithredu a bennwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y Fro yn ei Gynllun Lles a lansiwyd ar 22 Mai, 2018.

Er mwyn nodi'r cynnydd a wnaed yn nhrydedd flwyddyn y Cynllun Lles, dywedodd y Swyddog fod y BGC wedi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar ffurf adroddiad ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Sway. Rhoddodd yr Adroddiad Blynyddol, a gymeradwywyd gan y BGC yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf, drosolwg o'r cynnydd a wnaed gan bartneriaid wrth weithredu'r pedwar Amcan Lles a'r gweithgareddau a nodwyd yn y Cynllun ac yn erbyn ffrydiau gwaith blaenoriaeth y BGC. Roedd llawer o'r gweithgareddau a nodwyd wedi'u datblygu neu eu haddasu mewn ymateb i COVID-19.

Cefnogwyd y Swyddog hefyd yn ei gyflwyniad gan Gynrychiolydd CTC ar gyfer y BGC; y Cynghorydd Cuddy, a fu'n arfarnu'r Pwyllgor ar y sylwadau a godwyd yn ystod cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021 rhwng y BGC a'r CTCau. Cyflwynwyd materion a godwyd ac awgrymiadau ar gyfer ffyrdd ymlaen fel y'u codwyd yn ystod y cyfarfodydd dan sylw i'r Pwyllgor drwy Gyflwyniad PowerPoint.

Yn dilyn y cyflwyniad ac yn ystod dadl ddilynol y Pwyllgor, cododd y Pwyllgor awgrymiadau amrywiol fel y nodir yn Argymhelliad (3) isod.

CYTUNWYD –

(1) Y DYLID nodi Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg ar gyfer 2020-21 a'r cynnydd a wneir gan y partneriaid o ran gweithredu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Llesiant.

(2) Y DYLID nodi canlyniadau'r trafodaethau diweddar rhwng partneriaid y BGC a chynrychiolwyr rhai o'r Cynghorau Tref a Chymuned (CTCh), fel y'u nodwyd yn y cyflwyniad PowerPoint.

(3) Y DYLID rhoi'r argymhellion canlynol i'r BGC, drwy'r Cabinet, ynghylch ffocws gweithgarwch y BGC yn y dyfodol wrth gyflawni'r Cynllun Llesiant:

- Sicrhau bod y BGC a'r CTCh yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd er mwyn osgoi ymarferiad 'ticio blychau'.
- CTCh i gael y cyfle i gofrestru er mwyn siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu ar eitemau o ddiddordeb.
- Dylai CTChs barhau i fod â chynrychiolydd ymroddedig ar y BGC.
- Byddai'r sesiynau penodedig deirgwaith y flwyddyn yn ffordd ddefnyddiol o nodi a datblygu materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr gydag un neu fwy o CTCh a'r BGC.

(4) Y DYLAI'R Swyddog Gwasanaethau Democrataidd e-bostio adroddiadau cabinet diweddar Bro Morgannwg, fel y rhestrir isod, at bob Clerc Tref a Chymuned i'w hystyried ymhellach:

- Diweddariad ar y coronafeirws: trosolwg lefel uchel o'r sefyllfa sydd ohoni o ran y coronafeirws a threfniadau presennol y Cyngor i ymateb i'r pandemig ac adfer ohono.

- Prosiect Sero – Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd Drafft: ymateb y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd a'r gwaith a wneir fel rhan o Brosiect Sero.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi Aelodau'r Pwyllgor i ystyried cynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft a'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r Cynllun Llesiant.

(2) Galluogi'r Pwyllgor i ystyried sut y gall y BGC a'r CTCh gydweithio.

(3) Galluogi'r Aelodau i wneud argymhellion i'r BGC.

(4) Er gwybodaeth.

171 SYLWADAU GAN AELODAU ANNIBYNNOL O BWYLLGOR SAFONAU PWYLLGORAU MORGANNWG A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED A THRAFODAETHAU MEWN CYFARFODYDD Â CHLERCOD A'R SWYDDOG MONITRO (SM/PGCD) –

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r:

- broses a gynhaliwyd ac arsylwadau Aelodau Annibynnol o gyfarfodydd Pwyllgor Safonau Bro Morgannwg a CTC; a
- thrafodaethau mewn Cyfarfodydd rhwng y Swyddog Monitro a chyda Chlercod CTCau.

Un o rolau'r Pwyllgor Safonau oedd hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr Eglwys a Rhiant-Lywodraethwyr y Cyngor. Er mwyn cynorthwyo'r broses hon, ym mis Mawrth 2018, cytunodd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau i arsylwi ar Gyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. Ym mis Mawrth 2019 cafodd hyn ei ymestyn i arsylwi ar gyfarfodydd CTC hefyd.

Yn dilyn arsylwi o'r fath, mae Aelodau Annibynnol yn rhoi gwybod ar lafar yn rheolaidd am eu canfyddiadau i'r Pwyllgor Safonau, gyda'r arsylwadau hefyd yn cael eu trosglwyddo i'r Cadeirydd a'r Clercod perthnasol fel y bo'n briodol gan y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd rhai o'r canfyddiadau a oedd wedi'u rhannu ers cyflwyno'r fenter wedi cynnwys:

- defnyddio cardiau enw ac enwau ar y sgrin i hysbysu'r gwyliwr / mynychwr,
- bod cyflwyniadau perthnasol yn cael eu gwneud er mwyn i'r cyhoedd sy'n gwylio neu'n mynychu ddeall rolau'r rheiny sy'n mynychu,
- ystyried uchafswm amser i'w neilltuo ar gyfer cyfarfod. Pan fydd cyfarfodydd yn cymryd amser hir, efallai y bydd Cynghorau am ystyried cytuno ar uchafswm amser o ddwy awr ar gyfer cyfarfod,

Dechreuodd cyfarfodydd rhwng Swyddog Monitro a Chlercod CTCau yn 2019 gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal ar 22 Mawrth, 2019 a 10 Hydref, 2019 i roi cyfle ffurfiol i drafod materion sy'n peri pryder i bawb, i rannu arfer da, i gynnig cyfleoedd trafod a rhwydweithio agored, ac i rannu sylwadau cyffredinol Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2020 ond o ganlyniad i'r pandemig ni allai'r cyfarfod fynd yn ei flaen. Ailddechreuwyd y cyfarfodydd a chynhaliwyd cyfarfod diweddar ar 19 Mai, 2021 gyda'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar 24 Tachwedd, 2021.

Dywedodd y Cynghorydd Robertson ei fod o'r farn ei bod yn bwysig cyflwyno'r sylwadau i'r Pwyllgor ac y byddai'n croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr arsylwadau naill ai'n flynyddol neu bob chwe mis. Manteisiodd y Cynghorydd Robertson hefyd ar y cyfle i roi gwybod i'r Pwyllgor ei fod yn Aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor y Fro a bod sylw manwl yr Aelodau Annibynnol i fanylion, eu gwybodaeth am faterion Cod Ymddygiad a rôl CTCau wedi gwneud argraff dda arno.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd S. Hodges (Cyngor Tref y Barri) ynghylch mynediad cyhoeddus i gyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg, dywedodd y swyddog fod holl gyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg wedi'u recordio a'u lanlwytho i'r wefan yn dilyn y cyfarfodydd ers i'r calendr cyfarfodydd ailddechrau, ac eithrio pan oedd materion cyfrinachol a materion ynghylch rheoliadau Llywodraeth Cymru'n cael eu trafod. O'r adeg honno roedd aelodau o'r cyhoedd wedi gallu cofrestru i siarad mewn cyfarfodydd, ar ôl cwblhau'r broses gofrestru, lle bu cyfranogiad gan y cyhoedd. Ers 1 Mai, 2021 roedd holl gyfarfodydd y Cyngor hefyd wedi cael eu ffrydio'n fyw ar y rhyngrwyd, yn amodol ar unrhyw anawsterau technegol, yn ogystal â'u recordio at ddibenion archifo.

CYTUNWYD –

(1) Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) Y DYLAI'R Pwyllgor gael diweddariadau pellach ar sylwadau yn y dyfodol, ar sail dreigl bob blwyddyn, yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1a2) I roi gwybod i'r Pwyllgor am y broses sylwadau a gynhaliwyd ac i roi iddo drosolwg o'r trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y Swyddog Monitro a Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned.